Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Aelod o'r Pwyllgor Archwilio (gan gynnwys Aelod Lleyg)
## Disgrifiad o'r Swydd

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio

## 2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau

- **Deall rôl y Pwyllgor Archwilio a chynnal ei swyddogaethau:**
    - Adolygu a chraffu busnes ariannol yr Awdurdod
    - Creu adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â busnes ariannol yr Awdurdod
    - Adolygu ac asesu'r trefniadau rheoli risg, rheolaethau mewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod
    - Creu adroddiadau ac argymhellion i'r Awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
    - Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod
    - Adolygu'r datganiadau ariannol a baratoir gan yr Awdurdod
    - Bod â gwybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor
    - Sicrhau manylder a gwrthrychedd wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion cyn y cyfarfod

- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**
    - Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd y pwyllgor archwilio; gan gwestiynu a cheisio eglurder ar faterion sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y pwyllgor
    - Gwneud penderfyniadau call a chytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**
    - Deall y risgiau cyllidebol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr Awdurdod gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i'w wella
    - Sicrhau gonestrwydd penderfyniadau pwyllgor a'i rôl ef/hi drwy lynu at y Cod Ymddygiad ac unrhyw ofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

- Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy’n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor archwilio

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd